


Tymor yr Haf 2016

Edrychwch y tu
mewn am
newyddion,
sesiynau
addysgol,
manylion cadw
lle,
arddangosfeydd
a digwyddiadau.





Pwnc: Mrs Mahoney

Mrs Mahoney oedd gwraig gofalwr yr amgueddfa yn y 1850au, a gafodd ei ddiswyddo am ddwyn arian. Roedd y teulu Mahoney'n byw yn yr amgueddfa ac yn gorfod gadael ei gartref.

Bydd eich dosbarth yn cwrdd â Mrs Mahoney sy'n rhannu ei stori drist yng ngwisg y cymeriad. Mae'r stori'n cael ei hesbonio trwy ddefnyddio llawer o wrthrychau. Bydd y plant yn gweld y gist o bethau mae hi'n mynd â hi sy'n dangos y gwahaniaeth rhwng ei ffordd hi o fyw a'u ffordd nhw.

Grŵp oedran awgrymedig: Bl. 1 - 2,

Hyd: 1 awr



Pwnc: Trydan a chyn hynny

Sesiwn sy'n edrych ar gartrefi a bywyd bob dydd, a'r newidiadau a fu ynddyn nhw yn y 150 o flynyddoedd diwethaf.


Sesiwn addysgu weithredol, gan ddefnyddio llawer o wrthrychau i'w trafod o'r presennol a'r gorffennol ac yna astudio'r gwahaniaethau. Mae newidiadau mewn bywyd bob dydd yn cael eu harddangos trwy archwilio gefeiliau gwallt, golch, heyrn smwddio, goleuadau ac arteffactau glanhau.

Dewch i weld 'Llusern Hudol' wrth ei gwaith!!

Os hoffech gael amser i fraslunio a darlunio ar ôl sesiwn neu le i gael cinio, rhowch wybod i mi wrth gadw lle.

Grŵp oedran awgrymedig: Derbyn - Bl. 2

Hyd: 1 awr



Pwnc: Teithiau Trafnidiaeth

Cyfle i ysgolion gael ymweliad 'y tu ôl i'r llenni' â storfa Amgueddfeydd Abertawe, sy'n warws mawr iawn ger maes parcio Parcio a Theithio Glandŵr.

Caiff y plant daith dywys o'r cerbydau gan edrych ar y newidiadau a'r gwahaniaethau rhyngddyn nhw. Yr hyn sy'n cael ei arddangos yw tractor Allis Chalmers, beiciau modur, cert fferm gambo, lorïau dechrau'r 20^{fed} ganrif, C5 Sinclair, injan dân a dynnir gan geffyl, injan rowlio, bws o 1947, coets arolygu Harbwr Abertawe, etc. Bydd hyn yn cymryd tua awr ac, os dymunir, bydd hanner awr arall ar gyfer darlunio. Llauer i'w weld!

Grŵp oedran awgrymedig: Derbyn – Bl. 2
Hyd: 1 awr

Pwnc: Teganau

Addysgir y sesiwn awr hon gyda hen deganau. Byddwn yn edrych ar ddoliau, teganau clocwaith, teganau tunplat lliwgar, blychau arian, teganau pren, chwrligwganod a gemau awyr agored. Archwilir themâu megis newidiadau mewn deunyddiau, pŵer ac addurn. Llauer o hwyl wrth ddysgu am deganau.

Os hoffech gael cyfle i ddarlunio ar ôl hynny, rhowch wybod i mi.

Mae pecyn teganau ar gael i gyd-fynd â'r digwyddiad am £9.95.

Grŵp oedran awgrymedig: Derbyn – Blwyddyn 2
Hyd: 1 awr



Amgueddfa Abertawe - Cyfnod Sylfaen

Pwnc: 'I Lan y Môr!'



Mae hon wedi bod yn un o'n sesiynau mwyaf poblogaidd dros y blynyddoedd diwethaf – ac eleni rydyn ni'n ychwanegu rhywbeth arbennig...

Bydd y plant yn eistedd yn y tram ac yn cwrdd â chymeriad o oddeutu 1900, a fydd yn canu caneuon ac yn adrodd straeon am fynd i lan y môr, a sut roedd pobl yn cyrraedd, yn enwedig ar Drên y Mwmbwls.

Mae nifer cyfyngedig o sesiynau gyda sioe pypedau Pwnsh a Siwan! Cadwch le nawr i osgoi cael eich siomi.

Gan ddibynnu ar amser, bydd cyfle i'r plant greu eu stori eu hunain, ac archwilio 'bagiau o wrthrychau' o ddeunyddiau sy'n ymwneud â'r traeth, mynd ar dram y Mwmbwls, edrych ar y lluniau sy'n cael eu harddangos a darlunio...(ni fydd hyn yn bosibl os cadwch le ar gyfer sioe Pwnsh a Siwan).

Grŵp oedran awgrymedig: Derbyn – Bl. 2

Hyd: 1 awr

Amgueddfa Abertawe - Cyfnod Allweddol 2



Pwnc: Y Fictoriaid

Ffordd wych o edrych ar sut newidiodd Abertawe yn ystod oes Fictoria. Trwy astudio newidiadau mewn ardal yn ystod y 19^{eg} ganrif, dyma ffordd dda o edrych ar lawer o agweddau ar y Cwricwlwm Cymreig i'r ardal Leol. Mae arddangosfeydd Fictoraidd yr amgueddfa ar gael. Felly, mewn sesiwn Fictoraidd gyffredinol, bydd bob amser:

- Amrywiaeth o wrthrychau i'w trin a'u trafod
- Cyflwyniad sioe sleidiau ynghyd ag agweddau amrywiol ar oes Fictoria
- Gwaith yng Nghwprdd yr Hynodion neu'r oriel grochenwaith

Grŵp oedran awgrymedig: Bl. 4 - 6

Hyd: Diwrnod llawn (10am - 2.00pm)

Pethau ychwanegol opsiynol:

- Taith dywys o'r oriel grochenwaith (pecyn ar gael)
- Taith dywys o gwmpas adeiladau Fictoraidd cyfagos

Pwnc: Copropolis a Chwm Tawe Isaf

Mae disgyblion yn aml yn gyfarwydd â'r Parc Menter, B&Q, Morrisons, Stadiwm Liberty a'r Marina. Yn yr ardal hon roedd y diwydiannau a dyfodd o ddechrau'r 17^{eg} ganrif gan drawsnewid cymdeithas yn ystod y 19^{eg} ganrif.

Roedd yr hyn a ddigwyddodd yn Abertawe a Chymru'r un mor bwysig â dyfeisiadau tecstilau Gogledd Lloegr. Roedd copr a thunplat yn yr ardal hon yr un mor bwysig â haearn ym Merthyr a glo yn y Rhondda.

Mae'n bosibl ymweld â safleoedd o hyd â thystiolaeth o'r diwydiant hwn sy'n perthyn i'r gorffennol ac mae adnoddau i gyd-fynd â'r fath waith maes. Wrth i'r stori fynd yn ei blaen, mae newid yn dilyn newid, a gellir gweld yr hyn a wnaeth eu hysgogi a'u heffeithiau ar lefel syml.

Mae ymweliad yn cynnwys sioe sleidiau yn yr amgueddfa, amser i astudio gwrthrychau cysylltiedig... y cyfan fel cyflwyniad i ymweliad â safle gwaith y Graig Wen.



Amgueddfa Abertawe - Cyfnod Allweddol 2



Pwnc: Y Rhufeiniaid... a rhai Celtiaid

Diwrnod llawn gyda llawer o weithgareddau gan gynnwys y cyfle i wisgo gwisgoedd, tariannau Rhufeinig a Cheltaidd yn ogystal ag arwisgoedd. Llawer o hwyl ymarferol!

Gall grwpiau sy'n ymweld gwrdd â chymeriad Rhufeinig a darganfod sut oedd bywyd ym Mhrydain Geltaidd-Rufeinig.

Bydd gan y plant gyfle i ddatrys ym mhle cafodd rhai gwrthrychau Rhufeinig eu darganfod a chael golwg agosach arnynt yn yr Oriel Archaeoleg.

Ar ddiwedd y dydd, bydd sgwrs sioe sleidiau a fydd yn dod ag elfennau a themâu'r dydd ynghyd.

Grŵp oedran awgrymedig: Bl. 3/4/5

Hyd: Diwrnod llawn (10am - 2.00pm)



Pwnc: Yr Hen Aifft

Mae Amgueddfa Abertawe'n gartref i fymi 2,200 oed sy'n cael ei arddangos. Mae gennym hefyd lawer o ddarnau o grochenwaith a gwydr o'r Aifft, drych coluro hynafol a hyd yn oed hwyaden fymiedig!

Cyfunwch eich ymweliad â thaith i'r Ganolfan Eifftaidd ym Mhrifysgol Abertawe am ddiwrnod allan ardderchog a llawn.

Mae gwaith i'w wneud yn yr oriel a sioe sleidiau. Os ydych yn trefnu ymweliad â'r Ganolfan Eifftaidd, efallai y bydd lle i'ch grŵp gael cinio. Rhowch wybod i ni pan wrth gadw lle os hoffech wneud hyn.

Grŵp oedran awgrymedig: Bl. 3/4

Hyd: Hanner diwrnod



Pwnc: Abertawe yn ystod y Rhyfel

Gweithio gyda llawer o wrthrychau o'r Ail Ryfel Byd, paentiadau o ganol y dref adeg y rhyfel gan Will Evans, cesys dillad faciws i ymchwilio iddyn nhw, posteri a ffotograffau, a thro o gwmpas y dref (os dymunir).

Mae sgwrs sleidiau sy'n cynnwys llawer o themâu adeg rhyfel, sy'n archwilio sut cafodd Abertawe ei bomio a'r effeithiau y cafodd yr ymosodiadau ar ganol yr hen dref a'i phobl.

Gallaf hefyd drefnu i'ch grŵp gwrdd â rhywun a oedd yn byw yn Abertawe yn ystod blynyddoedd y rhyfel. Os hoffech gael yr opsiwn hwn, rhowch wybod i mi wrth gadw lle.

Grŵp oedran awgrymedig: Blwyddyn 5 - 6

Hyd: Diwrnod llawn (10am - 2.00pm)



Pwnc: Rheilffordd y Mwmbwls

Yn y sied dramiau mae tram stryd a chaban trê'n y Mwmbwls (y ddau'n rhai trydan) a chopi o dram a dynnir gan geffyl, ynghyd ag arddangosfeydd am drên y Mwmbwls (gyda fideo), tramiau Abertawe a thramffordd Constitution Hill o 1898. Ar gyfer thema trafnidiaeth, mae hyn yn dangos, er enghraifft y newid o geffylau i ager ac yna trydan, ac yn olaf o reilffyrdd i ffyrdd. Mae sgwrs sioe sleidiau, taflenni gwaith (hefyd DVD am £8.99) yn bosibl - cysylltwch â'r amgueddfa am fanylion.

Grŵp oedran awgrymedig: Bl. 3 a hŷn

Hyd: Hanner diwrnod



Pwnc: Dociau Abertawe

Newidiodd yr Ardal Forol o lain wyntog o dwyni i ardal grand Abertawe yn y 1780au, yn ardal brysur y dociau o 1859, yn dir gwastraff adfeiliedig ar ôl 1970. Heddiw, mae'n ardal breswyl a hamdden. Mae ysgolion yn astudio hyn fel enghraifft o newid ym maes hanes ond hefyd fel ffordd hynod ddiddorol o archwilio defnydd tir mewn daearyddiaeth. Mae sgwrs sleidiau ac amrywiaeth o daflenni gwaith (adeiladau, cerfluniau a cherfiadau, defnydd tir, agweddau morol) ar gael. Hefyd, mae ystod o baentiadau tirwedd Abertawe'n cael eu harddangos. Ymweliad maes buddiol sy'n astudio newidiadau lleol yn ystod y 19^{eg} ganrif.

Amgueddfa Abertawe - Cyfnod Allweddol 2 a 3



Pwnc: Alice Francis

Roedd Alice Francis yn berson go iawn, yn byw yn Abertawe yn ystod oes Fictoria, ac wedi'i chofnodi ar gyfrifiad 1851. Byddai wedi byw yn ystod llawer o'r newidiadau yn y 19^{eg} ganrif yn Abertawe.

Roedd yn byw yn Lôn Morris, a elwir yn Lôn y Brenin erbyn hyn, sy'n mynd gyferbyn â thafarn o'r enw Kings Arms yn y Stryd Fawr, Abertawe, i Barc Tawe.

Rydyn ni wedi esgus mai hi yw'r fenyw a welir yn y paentiadau sydd gennym yn yr amgueddfa gan William Butler, dyddiedig 1850-1, sy'n dangos Lôn Morris a Lôn y Castell gerllaw.

Mae pecyn adnoddau sy'n cynnwys DVD byr i'w ddefnyddio cyn neu ar ôl yr ymweliad.

Y diwrnod yn yr amgueddfa

Caiff eich dosbarth y cyfle i gwrdd ag Alice! Yn gyntaf yn ei gwisg fel y cymeriad, yna bydd y plant yn cwrdd â Val Williams (sy'n chwarae rhan Alice) ac yn canfod sut ymchwiliodd hi i'r rhan.

Mae'r disgyblion yn archwilio ffynonellau - yn trin ac yn trafod gwrthrychau, paentiadau, ffotograffau etc. yn yr orielau, allan o gesys, trwy sgwrs sleidiau, etc. Mae'n ffordd wych o astudio Fictoriaid a newidiadau mewn bywyd arferol.

Grŵp oedran awgrymedig: Bl. 5/6
Hyd: Diwrnod llawn (10-2.00pm)



I gadw lle mewn unrhyw un o'r sesiynau uchod yn Amgueddfa Abertawe, defnyddiwch y ffurflen cadw lle ar dudalen 10.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch **Barry Hughes** ar **01792 477180**.

Neu gallwch ffacsio **01792 652585** neu e-bostio Barry.Hughes@swansea.gov.uk

Amgueddfa Abertawe - Cyfnod Allweddol 2 a 3



Pwnc: Y RHYFEL BYD CYNTAF

Dewch i Gwrdd â'r Sarsiant Recriwtio! Dewch â'ch disgyblion i gael gwybod a fydden nhw'n gallu bod yn un o'r Swansea Pals.

Cewch wybod sut roedd bywyd i filwr o'r Gatrawd Gymreig ar y rheng flaen yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd y diwrnod yn cynnwys cyfle i gwrdd â'n hailberfformiwr yng ngwisg lawn yr oes, dril ymarfer a gwisgo yng ngwisg filwrol neu nyrsio. Cyfle i archwilio'n harddangosfa ardderchog am Abertawe a'r Rhyfel Mawr...gan gynnwys copi o ffos! Bydd sioe sleidiau hefyd i roi popeth yn ei gyd-destun.

Grŵp oedran awgrymedig: Bl. 4 - 6
Hyd: Hanner diwrnod

TYMOR YR HYDREF – cynhyrchiad theatr na N'Og 'Ysbryd Pwll Glo Morfa'

Ddydd Llun 10 Mawrth 1890, lladdodd ffrwydrad ym Mhwll Glo Morfa yn Nhau-bach 87 o lowyr. Y diwrnod hwnnw, dylai 450 o ddynion fod wedi bod yn y gwaith, ond cadwodd rhywbeth 200 ohonyn nhw gartref ac achubwyd eu bywydau, a bu farw'r lleill.

Yn yr ymchwiliad, roedd cyfrifon o ymddangosiadau ysbrydol a lleisiau annaearol a glywyd wythnosau cyn y ffrwydroad. Fydd gwir achos y drychineb byth yn hysbys?

Mae'r chwedl gothig hon yn adrodd stori plant ifanc a weithiodd dan y ddaear yn ystod oes Fictoria. Mae'r ddrama'n archwilio gwir arswyd y drychineb o gyfrifon ymarferol, erthyglau papur newydd y cyfnod a'r ymchwiliad swyddogol.

Bydd grwpiau sydd wedi cadw lle'n gwyllo perfformiad bore neu brynawn gyda gweithgareddau amgueddfa am ddim am hanner yr ymweliad. I gadw lle...www.theatryanog.co.uk/

I gadw lle mewn unrhyw un o'r sesiynau uchod yn Amgueddfa Abertawe, defnyddiwch y ffurflen cadw lle ar dudalen 10.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch **Barry Hughes** ar **01792 477180**.

Neu gallwch ffacsio **01792 652585** neu e-bostio Barry.Hughes@swansea.gov.uk

Ffurflen Cadw Lle Amgueddfa Abertawe



Llungopiŵch y ffurflen cadw lle hon ar gyfer **Amgueddfa Abertawe'n unig**. Defnyddiwch un ffurflen am bob ymweliad.

Sylwer: Mae'r holl sesiynau, oni nodir yn wahanol, AM DDIM i ysgolion sy'n aelodau 4 Site (tâl blynyddol £145) £35 y dosbarth/sesiwn (£42 o fis Ebrill 2016)

Pwnc/sesiwn eich cais:

Ysgol:

Enw Cyswllt:

E-bost:

Oedran/Grŵp Blwyddyn:

Nifer y plant/myfyrwyr:

Unrhyw arweiniad ynghylch dyddiadau:

Gofynion arbennig:

Anfonwch y ffurflen cadw lle wedi'i llenwi at:

Barry Hughes
Amgueddfa Abertawe
Heol Victoria
Ardal Forol
Abertawe
SA1 1SN

Mwy o wybodaeth:

Ffôn: 01792 653763 neu 01792 477180

E-bost: Barry.hughes@swansea.gov.uk

Ffacs: 01792 652585



Prisiau mewn cromfachau i aelodau 4-Site

Adnodd Newydd

Mae Abertawe a'r Blitz Tair Noson (DVD) yn adrodd stori'r dref yn dilyn cyrchoedd bomio difrodus 1941. 55 munud

Pris: £8.95



Pecyn Celfyddydau a Phlanhigion Plantasia

Arweiniad i Athrawon. 24 tudalen o syniadau ar gyfer celf wedi'i hysbrydoli gan y casgliadau yn Plantasia.

Pris: £9.95 (ac eithrio'r gost postio)



Dyddiadur Mr Dillwyn

Dyddiadur Lewis Weston Dillwyn o 1817 i 1852, yn llawn sylwadau ar feddygaeth, trafniadaeth, troseddu, diwydiant, etc. Fersiwn wedi'i golygu ynghyd â nodiadau a chyflwyniad i ddisgyblion.

136 o dudalennau, 115 o luniau

Pris: £7.95 (£7.15)



Stori Abertawe yn ystod yr Ail Ryfel Byd

Pecyn o atgofion ar ffurf lluniau, paentiadau gan Will Evans (4 mewn lliw) atgofion, mapiau a ffotograffau.

Pris: £15 (£13.50)



Abertawe a'r Rhyfel.....60 mlynedd yn ddiweddarach

Casgliad o lyfrynnau gydag atgofion lleol, gan gynnwys "Diary of Laurie Latchford, 1940-41"

Roedd e'n warden cyrch awyr, ac mae'n disgrifio blitz Abertawe'n fywiog, ond mae hefyd yn dda iawn am natur bywyd y cyfnod.

Atgofion Elaine Kidwell, yn dwyn y teitl...“O Warden Cyrch Awyr i Ferch y Tir”. Yn 17 oed, mae'n honni mai hi oedd y warden cyrch awyr ifancaf ym Mhrydain. Mae'n disgrifio'r cyrchoedd awyr gyda chryn deimlad ond yna mae'n sôn am ei chyfnod ym Myddin y Tir ger Hwlfordd.

Y llyfryn olaf gydag 16 o dudalennau yw "Atgofion Mike Lewis - bachgen o Bort Tennant mewn rhyfel". Cafodd Mike ei symud i Ystradgynlais yn ystod y rhyfel, ac mae'n disgrifio'i gyfnod yno, a'i fywyd cartref, gydag asbri mawr.

Hefyd wedi'i chynnwys y mae taflen wybodaeth am y batris gwn rhyfel yn y Mwmbwls a chopi o baentiad cyfoes o Abertawe'n llosgi ar 21 Chwefror, 1941, gydag atgofion yr artist pan oedd yn y Gwarchodlu Cartref.



Wyth Llun o Gloddio am Lo

Copïau wedi'u lamineiddio o ddarluniau cloddio am lo o'r casgliadau yn Oriel Gelf Glynn Vivian gyda digonedd o wybodaeth, a nodiadau i athrawon.

Pris: £7.50 (£6.75)

John Dillwyn Llewellyn, ffotograffydd arloesol

Detholiad o'r ffotograffau rhagorol o albymau JDL o'r 1850au, ffotograffau cynnar o deulu Fictoraidd a mwy.

Pris: £7.95 (£7.15)

Llongau a Diwydiant

Pecyn o gopïau wedi'u lamineiddio o baentiadau, darluniau, printiau a ffotograffau cyfoes, yn dangos twf morwrol a diwydiannol o 1740nodiadau llawn ar bob llun.

Pris: Wedi'i ostwng i £6

Teganau

Pecyn sy'n cynnwys 3 phoster mawr lliwgar o'n casgliad o deganau, arweiniad amlinellol i'r teganau a nodiadau am hanes teganau.

Pris: £9.95

Abertawe cyn Diwydiant I ... y Dref a'i Chyffiniau

Castell, strydoedd, bryniau, coetir, nentydd, etc. 68 o dudalennau, 62 o luniau.

Pris: £6.95 (£6.25)

Abertawe cyn Diwydiant II ... Ffermio, Masnachu a Chrefftau

Corn, pobi, gwlân, lledr, marchnadoedd a ffeiriau, siopau, adeiladu, etc. 103 o dudalennau, 78 o luniau

Pris: £7.95 (£7.15)

Castell Abertawe gan Bernard Morris

Y cyfrif safonol, yn llawn deunydd canoloesol defnyddiol. 108 o dudalennau 74 o luniau.

Pris: £7.95 (£7.15)

Cyhoeddiadau 4-Site



Gwaith Crochendai'r Cambrian a Morgannwg 1764 – 1870

Pecyn sy'n archwilio stori crochendai Abertawe a'r bobl a oedd yn gweithio ynddyn nhw

Pris: £2.50

Fideos

Llongau a Chaneuon Môr

Caneuon Môr a Baggyrinkle yn eu canu, gydag arddangosion morol ac ardal y marina'n gefndir iddyn nhw.
20 munud.

Pris: £6.00

Gwaith Copr y Graig Wen

Datrys dirgelion y safle diwydiannol ysblennydd hwn ger glannau'r Tawe. 25 munud.

Pris: £7.00

Archwilio adfeilion Castell Ystumllwynarth

Yn rhoi'r castell yn ei gyd-destun, yna'n ystyried ei nodweddion ar y safle. 53 munud.

Pris: £8.00

I Archebu

I brynu unrhyw un o'r uchod, ticiwch y cyhoeddiad(au) perthnasol ac anfonwch siec gyda'ch archeb. Fel arall, gallwn anfonebu'ch ysgol yn uniongyrchol - ticiwch y cyhoeddiadau perthnasol ac ysgrifennwch eich enw chi ac enw'ch ysgol/coleg ar y daflen.

Sylwer - os ydych yn talu trwy siec, gwnewch hi'n daladwy i Dinas a Sir Abertawe, ac anfonwch yr archeb at: Barry Hughes, Amgueddfa Abertawe, Heol Victoria, Abertawe SA1 1SN

Ysgol _____

Siec wedi'i hamgáu

Gwerth _____

Anfonebwch

Cyfanswm _____

Mae'r rhain yn amrywio o un daflen i dros 100 o dudalennau. Maen nhw'n cael eu hargraffu'n syml, yn fawr gyda darluniau ar y tudalennau.

Mae pob un ar gael ar gais. Ticiwch nhw ar y daflen hon, ychwanegwch eich enw ac enw'r ysgol/coleg a'i hanfon at: Barry Hughes, Amgueddfa Abertawe, Heol Victoria SA1 1SN. Gwnewch sicciau'n daladwy i Dinas a Sir Abertawe, neu gadewch i ni'ch anfonebu os yw'r archeb dros £10.

Ysgol _____

Siec wedi'i hamgáu Gwerth _____

Anfonebwch Cyfanswm _____

Teitl	Cost	Cais
Y mymi	75c	
Rhufeiniaid yn Abertawe a Gŵyr	£1	
Rhufeiniaid yng Ngorllewin Morgannwg	£1	
Llychlynwyr (yn Ne Cymru)	£1	
Abertawe'r Oesoedd Canol: siarteri	65c	
Normaniaid ar Benrhyn Gŵyr	£1.95	
Y Rhyfel Cartref yn ardal Abertawe	£1	
Melinau yn ardal Abertawe	£1	
Cwm Tawe Isaf		
Fferi'r Graig Wen	20c	
Perchnogion a chloddio glo Llansamlet	50c	
Sinc	75c	
Gwaith copr cynnar	75c	
Gwaith copr diweddarach	75c	
Codiad a Chwmp y Diwydiant Copr	75c	
Tunplat	£1	
Teulu Grenfells o St Thomas	£1	
Teulu Morris o Dreforys	£1.20	
Y Dynion Copr	75c	
Cloddio glo yn ardal Abertawe cyn 1700	£1.20	
Cloddio am lo: Eastside	£1.20	
Tramffyrdd a Rheilffyrdd Diwydiannol	£1.20	
Rheilffyrdd o gwmpas Abertawe	30c	
Rheilffordd Bro Tawe	30c	
Rheilffordd De Cymru	30c	
Rheilffordd y Mwmbwls	30c	
Cychod achub (amrywiol)	10c ac 20c	
Tynfadau (amrywiol)	10c ac 20c	
Hofelydd: iechyd y cyhoedd yn Abertawe'r 19eg ganrif, Cyfrolau 1, 2 a 3	£1.20 yr un	
Crochendy Ynysmeudwy [Pontardawe]	10c	
Trawst o Injan Weindio Gernywaidd	10c	
Lizzie'r Eliffant	30c	
Dylan Thomas	30c	

Adnoddau



'Abertawe a'r Ail Ryfel Byd - Stori'r Werin'

Mae rhaglen ddogfen NEWYDD sy'n cyflwyno atgofion personol am un o'r adegau tywyllaf yn hanes Abertawe bellach ar gael.

Dyma'r rhan ddiweddaraf o raglenni dogfen poblogaidd Amgueddfa Abertawe am yr Ail Ryfel Byd ac mae'n defnyddio cyfrifon llygad-dystion i gofnodi brwydr y ddinas trwy gydol y rhyfel ac yn ystod blitz tair noson y Luftwaffe ym mis Chwefror 1941.

Pris £8.99

Cofrestrriad Ysgol 2016/17



Hyd aelodaeth yw 1 Ebrill 2016 tan 31 Mawrth 2017
Dosberthir cardiau aelodaeth ar ôl cael tâl.

I gymryd rhan yn yr holl weithgareddau addysgol cyffrous yn 4Site, gofynnir i ysgolion am ffi gofrestru ar gyfer 2016-17 (prisiau wedi'u rhestru isod). Bydd hyn yn golygu y bydd ysgol yn gymwys am hyfforddiant HMS am ddim yn ogystal â mynediad i holl weithgareddau 4Site.

Amgaeaf siec yn daladwy i Dinas a Sir Abertawe - £130

Mae 50 o ddisgyblion neu lai yn ein hysgol ni - £65

Dwi wedi penderfynu talu fesul dosbarth/ymweliad - £35 y tro

Mae'n hysgol ni yn:

Ninas a Sir Abertawe

Castell-nedd Port Talbot

Ardal awdurdod lleol arall

Ysgol _____

Cyfeiriad _____

Côd post _____

Ffôn _____

Cyswllt _____ Dyddiad _____

Os ydych am drafod hyn, ffoniwch **01792 653763** a gofynnwch am gael siarad â **Barry Hughes**.

Dychweler y ffurflen yn uniongyrchol i:

Amgueddfa Abertawe
Heol Victoria
Abertawe
SA1 1SN